Dŵr Cymru
Welsh Water

PECYN RHANDDEILIAID 2022

# STOP CYN CREU BLOC



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Beth sy'n digwydd wrth fflysio weips? | 4 |
| Sut i stopio'r bloc yn yr ystafell ymolchi | 5 |
| Sut i stopio'r bloc yn y gegin | 6 |
| Sut i stopio'r bloc yn y gweithle | 7 |
| Sut y gallwch chi helpu | 8 |
| Copi i'r Cyfryngau Cymdeithasol | 9 |
| Y gwirionedd am weips | 10 |
| Peidiwch ag achosi dilyw. Gweithredwch nawr | 11 |
| Cynnwys i'r cyfryngau cymdeithasol | 12 |




# CYFLWYNIAD

**O lanhau arwynebau i dynnu colur a newid cewynnau, mae weip i bob achlysur. Ond er eu bod nhw'n hwylus, maen nhw'n fygythiad anferth i'r amgylchedd os nad yw pobl yn cael gwared arnyn nhw yn y ffordd gywir.**

**Ac nid weips yw'r unig broblem.**

Bob blwyddyn, mae Dŵr Cymru'n gorfod clirio miloedd o garthffosydd sydd wedi cael eu blocio gan eitemau na ddylai gael eu fflysio, gan gynnwys eitemau mislif, gwlân cotwm a chewynnau. Mae plastig yn yr holl eitemau hyn, sy'n golygu eu bod nhw'n wydn dros ben, felly nid ydyn nhw'n dadelfennu mewn dŵr.

Yn hytrach, maen nhw'n ffurfio tomenni braster yn ein carthffosydd – sef tomenni mawr o wastraff, weips, braster ac olew coginio sy'n cronni gan flocio'r pibellau.



## OEDDECH CHI'N GWYBOD?

### TAW WEIPS YW'R PRIF BETH SYDD MEWN TOMENNI BRASTER FEL ARFER

Rydyn ni'n gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth am hyn fel bod ein cwsmeriaid ni'n gwybod am y problemau y maent yn gallu achosi, ond mae pobl yn dal i fflysio a golchi pethau na ddylen nhw i'r draen, a dyma beth sy'n achosi 60% o'r tagfeydd ym mhibellau Dŵr Cymru.

**Dyna pam fod angen eich cymorth chi arnom ni.**

Mae hi'n bwysig bod ein cwsmeriaid ni'n deall y problemau mae fflysio eitemau amhriodol yn gallu eu hachosi, a'r dinistr y mae hyn yn gallu ei greu mewn cartrefi, cymunedau lleol ac yn yr amgylchedd.

Helpwch ni i atgoffa pobl am bwysigrwydd cael gwared â'r pethau hyn yn y ffordd gywir, a sut y gallwn ni helpu i wneud gwahaniaeth mawr gyda'n gilydd.

# BETH SY'N DIGWYDD WRTH FFLYSIO WEIPS

Y gwir amdani yw bod un weip yn ddigon i flocio'ch pibell garthffosiaeth. Ac os nad yw'n blocio'ch pibell chi, gallai flocio pibellau eraill ger eich cartref neu rai'ch cymdogion. Os nad yw'r garthffosiaeth yn gallu llifo ar hyd y pibellau carthffosiaeth am eu bod wedi eu blocio, gallai hynny achosi llifogydd yn eich stryd, eich gardd neu hyn yn oed nôl i mewn i'ch cartref.

Dychmygwch petai ffrind neu berthynas yn dioddef llifogydd carthion yn eu cartref oherwydd eich arferion fflysio chi. Am sefyllfa erchyll! Ond mae'n un sy'n rhwydd ei osgoi.

TYNNWYD Y DOMEN YMA O WEIPS O GARTHFFOS YM MLAENAFON. TREULIODD EIN TIMAU DAIR AWR YN CLIRIO'R BLOC, A DEFNYDDIWYD DAU LOND TANC O DDŴR.




CAFODD Y BLOC YMA YN Y RHYL EI ACHOSI GAN FRASTER, OLEW A SAIM YN CRONNI YN GARTHFFOS. CAFODD EI FFEINDIO A'I GLIRIO – DIOLCH BYTH!




# SUT I STOPIO'R BLOC YN YR YSTAFELL YMOLCHI


Mae pob un fflysh yn cyfri. Mae hi'n bwysig eich bod chi ond yn fflysio neu'n draenio gwastraff dynol (pi-pi a pŵ) a phapur tŷ bach.



TAFLWCH UNRHYW WEIPS (HYD YN OED OES YW'N DWEUD AR Y LABEL BOD MODD EU FFLYSIO, MAEN NHW'N GALLU CREU BLOC), EITEMAU MISLIF, FFYN GWLÂN COTWM A CHEWYNNAU I'R BIN.




HOLWCH A YW'CH CYNGOR LLEOL YN CYNNIG GWASANAETH CASGLU CEWYNNAU.



RHOWCH GYNNIG AR DDEFNYDDIO NWYDDAU Y GALLWCH EU HAILDDEFNYDDIO – MAE'N WELL I'R BLANED A GALLAI ARBED ARIAN I CHI YN Y TYMOR HIR.

# SUT I STOPIO'R BLOC YN Y GEGIN

Er nad yw braster, olew a saim i'w gweld yn niweidiol, mae'r pethau hyn yn caledu ac yn glynu wrth oeri. Wrth eu harllwys i'r draen neu'r sinc, rydych chi mewn perygl o achosi bloc yn y bibell, neu mewn rhan ohoni, sy'n gallu bod yn drychinebus i'ch draeniau. Y newyddion da yw ei bod hi'n hawdd amddiffyn eich cartref neu'ch busnes rhag llifogydd oherwydd bloc yn y bibell.



# SUT I STOPIO'R BLOC YN Y GWEITHLE

Mae golchi FOG i lawr y sinc, y draen (gan gynnwys tyllau archwilio) neu'r tŷ bach yn drosedd o dan Adran 111(1) (a) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 — mae'r Ddeddf yn datgan ei bod hi'n drosedd "rhyddhau i garthffosydd cyhoeddus unrhyw fater a allai darfu ar lif rhydd dŵr gwastraff".

Y gwir amdani yw y gall anwybyddu'r gyfraith olygu eich bod chi'n achosi bloc yn y garthffos, a byddwch mewn perygl o orfod talu costau atgyweirio ac adfer, a chostau unioni unrhyw ddifrod i eiddo cyfagos neu'r amgylchedd.


Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau nad yw braster, olew a saim yn mynd i'ch pibellau — felly gweithredwch nawr.

**Angen cyngor a chymorth? – Gallwn ni helpu**


Gall ein tîm gyflawni arolwg pwrpasol ar eich cegin, yn rhad ac am ddim. Gallwn adolygu eich systemau rheoli saim, eich trefniadau cynnal a chadw, hyfforddiant i staff a pharatoi cynllun gweithredu er mwyn sicrhau eich bod chi'n cydymffurfio â rheoliadau'r diwydiant.

I drefnu arolwg ar eich cegin chi, cysylltwch â ni ar 0800 085 3968 a gofyn am eich Swyddog Atal Bloc lleol, neu e-bostiwch letsstoptheblock@dwrcymru.com

HYFFORDDWCH EICH GWEITHWYR – GALLWCH AMDDIFFYN EICH BUSNES TRWY ROI HYFFORDDIANT RHEOLAIDD I'CH TÎM AR EFFAITH BRASTER, OLEW A SAIM AR EICH PIBELLAU.



DEFNYDDIWCH HIDLYDDION YN Y PLWG A THAFLWCH EU CYNNWYS I'R BIN NEU'R BLWCH AILGYLCHU BWYD.



AR ÔL GORFFEN GYDA'CH OLEW, GWNEWCH YN SIŴR EICH BOD CHI'N CAEL GWARED ARNO MEWN FFORDD BRIODOL. COFIWCH SICRHAU BOD GAN EICH CONTRACTWR GWASTRAFF DRWYDDED I GLUDO GWASTRAFF.




# SUT Y GALLWCH CHI HELPU

Lledwch y neges trwy'r cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio ein negeseuon parod sydd ynghlwm i ddangos i'ch dilynwyr eich bod chi'n cefnogi ein hymgyrch i stopio'r bloc, a'u cyfeirio at **dwrcymru.com/StopCynCreuBloc** am fanylion.

Cofiwch ddefnyddio **@DwrCymru** a #StopCynCreuBloc

Rhannwch y copi isod trwy eich safleoedd mewnrwyd, gwefannau, newyddlenni a'ch blogiau i annog pobl i stopio'r bloc.







Dilynwch, hoffwch a rhannwch ein cynnwys â'ch dilynwyr (links to FB, Twitter, Instagram and Linkedin).

# NEWYDDLENNI A BLOGIAU

Rhannwch hwn

**Croeso i chi ddefnyddio'r copi isod yn eich newyddlen neu ar eich gwefan.**

Mae un weip yn ddigon i ddechrau bloc yn eich cartref, eich stryd neu yng nghartref eich cymdogion. Nid yw weips yn dadelfennu ar ôl eu fflysio, yn hytrach maen nhw'n ffurfio tomen fawr sy'n blocio'r pibellau ac yn rhwystro systemau plymio.

Yr unig ffordd gywir o gael gwared ar weips yw trwy eu taflu i'r bin.

Ond peidiwch â phoeni, mae gan **Ddŵr Cymru Welsh Water** gynigion a chynghorion syml i helpu i stopio'r bloc.



**dwrcymru.com/StopCynCreuBloc**

# PEIDIWCH AG ACHOSI LLIFOGYDD. GWEITHREDWCH NAWR.

Mae pob math o bethau'n achosi bloc, ond peth mwyaf cyffredin yw pobl yn fflysio pethau fel weips a nwyddau mislif i lawr y tŷ bach, neu'n golchi braster ac olew coginio sydd dros ben i lawr sinc y gegin.

## Sut i osgoi bloc

PEIDIWCH Â FFLYSIO DIM OND Y TRI P...


- ✓ PI-PI
- ✓ PŴ
- ✓ A PHAPUR



HOLWCH A YW'CH CYNGOR LLEOL YN CYNNIG GWASANAETH CASGLU CEWYNNAU.




RHOWCH GYNNIG AR DDEFNYDDIO NWYDDAU Y GELLIR EU HAILDDEFNYDDIO – MAE'N WELL I'R BLANED A GALLAI ARBED ARIAN I CHI YN Y PENDRAW.



GADEWCH I FRASTER, OLEW A SAIM OERI CYN EU TAFLU I'R BIN YN HYTRACH NA'U GOLCHI I LAWR Y SINC.



TAFLWCH UNRHYW WEIPS (HYD YN OED OES YW'N DWEUD AR Y LABEL BOD MODD EU FFLYSIO, MAEN NHW'N GALLU CREU BLOC), EITEMAU MISLIF, FFYN GWLÂN COTWM A CHEWYNNAU I'R BIN.



**dwrcymru.com/StopCynCreuBloc**

# Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Croeso i chi ddefnyddio'r templedi a'r graffeg sydd ynghlwm ar gyfer negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. A dilynwch y sianeli cyfryngau cymdeithasol canlynol:

Twitter @DwrCymru
Facebook @DwrCymruWelshWater
Instagram @DwrCymruWelshWater

Dilynwch y cynghorion hyn gan **@DwrCymru** i helpu i stopio'r bloc!

— Peidiwch â fflysio dim ond y tri P (pi-pi, pŵ a phapur)
— Taflwch bob weip i'r bin

Am gynghorion, ewch i:
**http://bit.ly/belonginthebin**




**Y GWIRIONEDD AM WEIPS...**

Mae fflysio un weip yn ddigon i ddechrau bloc yn eich pibell garthffosiaeth.

Trwy wneud y peth iawn, gallwch chi stopio'r bloc.

Am fanylion, ewch i:
**http://bit.ly/belonginthebin**




R'yn ni'n dilyn cynghorion **@DwrCymru** i helpu i stopio'r bloc.

**AWGRYM**

Arllwyswch fraster sydd dros ben i gynhwysydd sy'n gwrthsefyll gwres, a'i roi yn y bin ar ôl iddo oeri.


Am gynghorion, ewch i:
**http://bit.ly/belonginthebin**




# POSTERI I'W LAWRLWYTHO

I gael rhagor o fanylion neu os oes unrhyw gwestiynau gennych, cysylltwch: press@dwrcymru.com

I'W LAWRLWYTHO



dwrcymru.com/StopCynCreuBloc